

Sbaen yn 1492 OG. Mae rhai synagogau'n coffáu dinistr yr Holocost ar Tishah B'Av. Mae'n well gan eraill neilltuo diwrnod arbennig ar gyfer hyn, 27 Nisan, sef *Yom Ha-Shoah* (gweler pennod 16). Fel Yom Kippur, mae Tishah B'Av yn ymptyd 25 awr (mae pob ymptyd arall yn para o doriad gwawr tan yr hwyr). Mae awryglch o dristwch aruthrol yn y synagog. Mae'r llen yn cael ei dynnu oddi ar yr arch a'r gorchudd o'r ddesg ddarllen. Mae'r goleuadau'n isel, ac mae llyfr Galarnad yn cael ei lafarganu'n brudd. Yng ngwasanaeth y bore, mae pawb yn gweddio'n dawel, heb addurn tallit na tephilin. Yng nghanol y tristwch mae gobaith am y dyfodol ac yn y saith wythnos sy'n dilyn Tishah B'Av, mae pob gwasanaeth Shabbat yn cynnwys neges o gysur ac addewid, gan ddechrau gydag Eseiā 40.

Dydy Iddewon an-Unionged ddim yn credu ei bod hi'n iawn pwysleisio'r Deml a gweddio am ei hadfer. Maen nhw'n cadw Tishah B'Av i gydnabod dioddefaint yr Iddewon pan ddinistriwyd y ddwy Deml, ac achlysuron ofnadwy eraill yn hanes yr Iddewon, ond dydyn nhw ddim yn cadw'r ymptydiau eraill sy'n galaru am golli'r Deml. Ond mae Iddewon Unionged yn credu fod y Deml yn arwydd mor bwysig o bresenoldeb Duw gyda'i bobl fel bod rhaid iddi barhau i fod yn ganollbwynt i Iddewiaeth. Mae Salm 137: 5-6 yn mynegi hyn:

*Os anghofiaf di, Jerwsalem,
bydded fy nebeulau'n ddiffyryth;
bydded i'm tafod llynu wrth daflod fy ngenau
os na chofiaf di,
os na osodaf Jerwsalem
yn uwch na'm llawerydd pennaf.*

Felly maen nhw'n cadw ymptydiau ychwanegol ar 10 Tevet, sef dyddiad dechrau gwarchae Babilon ar Jerwsalem, a 17 Tammuz, y dyddiad y chwalodd y Rhufeiniaid furiau Jerwsalem yn 70 OG gan arwain at ddinistr y Deml, a'r ymptyd cysylltiedig ar 3 Tishrei, sef Ymptyd Gedaliah. Ar ôl dinistrio'r Deml ac alltudio llawer o Iddewon yn 586 COG, penododd y Babiloniaid Gedaliah yn llywodraethwr ar y bobl oedd yn dal ar ôl yn Jwdea. Cafodd ei lofruddio gan elynion, gan chwalo unrhyw obaith am barhad yn y gymuned Iddewig. I Iddewon Unionged, y tair wythnos yn dilyn yr 17 Tammuz yw adeg dristaf y flwyddyn Iddewig, gyda defodau galaru (er enghraifft, peidio â gwrandao ar gerddoriaeth) yn dwysáu wrth i Tishah B'Av nesáu. Mewn llawer cymuned, does neb yn bwyta cig nac yn yfed gwin o'r 1af hyd at y 9fed o fis Av.

14 gwyliau'r pererinion

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am darddiad y tair prif ŵyl, sef y Pasg Iddewig, Wythnosau, a Thabernaclau
- am bwysigrwydd ailfyw'r profiad o ennill rhyddid, derbyn y Torah, a dibynnu ar Dduw
- am symbolaeth gyfoethog a seremonïau'r gwyliau hyn.

Y Pasg Iddewig – gŵyl y bara croyw

Mae paratoadau'r Pasg Iddewig yn cymryd llawer iawn o amser ac ymdrech. Rhaid glanhau'r cartref yn drylwyr, a chael gwared o'r mymryn lleiaf o lefain o'r tŷ. Mae hyn oherwydd Exodus 12: 7-19, sydd, yn adnod 17, yn cyfeirio at y Pasg fel Gŵyl y Bara Croyw, *Hag Ha-Matzot*. Bara heb lefain (neu surdoes) yw bara croyw. Mae *Matzah* ('bara croyw', lluosog *matzot*) yn cael ei wneud o flawd a gadwyd yn gwbl sych. Rhaid iddo gael ei bobio o fewn 18 munud o ddod i gyffwrddiad â dŵr, sy'n sicrhau na fydd yn codi. Mae bara a wnaed o unrhyw un o'r pum math o rawn (gwenith, rhug, ceirch, gwenith yr Almaen neu haidd) sydd wedi bod mewn cysylltiad â dwr am ddeunaw munud cyn ei bobio yn *hametz* (bara lefain). *Matzah* yw'r unig gynnyrch grawn y gall Iddewon ei fwyta dros y Pasg Iddewig. A bod yn fanwl gywir, dylid goruchwyllo'r holl broses o wneud *matzah*, o'r cynaeafu, y malu, nithio'r grawn, ei gludo, tylino'r toes a phobi. Mae pob bwyd sydd â gwarant nad oes dim *hametz* ynddo yn dwyn y label 'Kasher ar gyfer Pesach'.

Mae cael gwared â'r holl *hametz* o gartref Iddewig yn broses gymhleth. Mae gan lawer o deuluoedd sosbenni, llestri, a chyllyll a ffyr arbennig ar gyfer yr ŵyl – sydd ond yn cael eu defnyddio adeg Pesach a'u rhoi i gadw am weddill y flwyddyn. Yn ôl y Beibl ac yn y traddodiad rabinaidd, rhaid i Iddew beidio â bwyta *hametz* na bod â dim ohono yn ei feddiant, felly bydd Iddew Uniongred yn cael gwared o'r cwbl. Os bydd bywoliaeth rhywun yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o *hametz*, gall y person hwnnw ufuddhau i'r ddeddf drwy werthu'r *hametz* i rywun nad yw'n Iddew, a gallai hwnnw helpu, yn ei dro, drwy beidio â thalu amdano, a rhoi'r *hametz* yn ôl wedi'r cyfnod dan sylw. Neu mi allai Iddew Uniongred gloi'r *hametz* mewn lle diogel a rhoi'r allwedd i'r prynwr. Mae'n well gan y mudiad Diwygiedig selio cynnyrch o'r fath mewn blwch, a'i storio yn ddiogel o'r ffordd, mewn garej, seler, atic neu sied. Mae'n nhw'n pwysleisio'r pwynt mai bwyta'r *hametz* sydd wedi ei wahardd, ond mae'r Uniongred yn dilyn gorchymyn Exodus 12: 19 ac yn credu, gan nad oes gwaharddiad ar *hametz* weddill y flwyddyn, y byddai'n hawdd i Iddew anghofio, a'i fwyta yn ystod Pesach. Mae'n nhw hefyd yn credu fod rhoi'r *hametz* dan sêl yn unig yn golygu ei fod yn dal ym meddiant y person. Mae'r arferion Uniongred ac an-Uniongred yma yn enghraifft dda o agweddau gwahanol.

Un ddefod gyffredin yw fod darnau o *hametz* yn cael eu cuddio'n fwriadol. Ar 14 Nisan, bydd yr holl deulu'n mynd ati i chwilio yn seremonïol. Mae unrhyw lefain sydd ar ôl yn y tŷ yn cael ei roi

o'r neilltu a'i losgi (fel symbol o ddinistrio popeth mae *hametz* yn ei gynrychioli) drannoeth, cyn i'r Pasg ddechrau gyda'r nos (15 Nisan). Y rheswm dros yr holl ymdrech yma i gael gwared o lefain yw ailgreu i Iddew, o unrhyw gyfnod a lle, amodau corfforol yr exodus o'r Aifft. Yn ôl Exodus 12: 34, cafodd y bara croyw ei fwyta gan Blant Israel yn union cyn iddyn nhw ffoi o gathiwed yn yr Aifft, gan nad oedd amser i ddisgwyl i'r bara godi. Gan ddilyn gorchymyn Exodus 12: 18 i fwyta bara croyw, mae Iddewon yn bwyta *matzah* yn benodol yn ystod y cyfnod yma, yn enwedig ar ddiwrnod cyntaf (neu, i Iddewon Uniongred y tu allan i Israel, dau ddiwrnod cyntaf) yr ŵyl. Mae'n ffordd o ailgreu'n gorfforol brofiad eu cyndeidiau o fod yn gaethweision ac yna o fod yn rhydd.

Mae arwyddocâd ysbrydol y lefain yn amlwg hefyd. Am ei fod yn gwneud i fara godi, mae wedi mynd i symboleiddio tuedd bodau dynol i ymfrostio a bod yn falch. Mae peidio â bwyta *hametz* a bwyta *matzah* yn ffordd o atgoffa Iddew ei fod yn ddibynnol ar Dduw. Yn ogystal â glanhau'r tŷ, dylid glanhau popeth annerbyniol o'u bywyd. Fel arfer, mae arwyddocâd y defodau'n rhan o bregeth y rabbi ar y Shabbat cyn y Pasg Iddewig.

Rhyddid – bryd hynny ac yn awr

Ystyr y Pasg Iddewig

Mae thai pobl yn credu fod gŵyl y bara croyw a gŵyl y Pasg Iddewig yn ddau achlysur gwahanol yn wreiddiol. Gŵyl amaethyddol oedd gŵyl y bara croyw (yn ymwneud â'r ffaith fod ffermyr yn yr hen Ddwyrain Agos yn gorfod cael gwared o hen fara a lefain o gnwd y flwyddyn flaenorol), tra'r oedd y Pasg Iddewig yn ŵyl fugeiliol yn y bôn. Mae'n nhw'n cysylltu'r enw 'Pesach' â'r ferf Hebraeg am 'prancio', sy'n digrifio ŵyn newydd-anedig. Yn sicr, yn y gwanwyn cynnar (mewn Hebraeg, *Aviv*, yr enw ar fis Nisan hefyd cyn i'r enw Babilonaidd gael ei fabwysiadu), byddai ffermyr yn dathlu'r cynhaeaf haidd a bugeliadau yn dathlu'r tymor ŵyna. Ar ryw adeg, cafodd y dathliadau yma eu cyfuno â dathliadau hanesyddol. Y digwyddiad hanfodol mae Pesach yn ei goffáu yw'r exodus o'r Aifft.

Mae Exodus 12: 3-6 yn adrodd hanes Duw yn gorchymyn i bob teulu ar y noson dyngedfennol i ladd oen a'i fwyta. Mae'r Torah yn nes ymlaen yn gorchymyn i'r Israeliaid aberthu oen bob

blwyddyn i goffáu hyn (Deuteronomium 16: 2, 6-7). Oen y Pasg oedd hwn. (Mae Deuteronomium 16: 3 yn cyfeirio at fara croyw fel 'bara cystudd', sy'n ein hatgoffa am ormes yr Eifftiaid.) Tra bod rheolaeth Duw dros natur yn cael ei chofio yn yr ŵyl wanwyn yma, gweithred Duw yn 'mynd heibio' i'r Israeliaid y mae'r Pasg Iddewig yn ei ddathlu yn bennaf. Mae'n canolbwyntio ar reolaeth Duw dros hanes, ac yn enwedig, ei allu i rhyddhau'r Israeliaid o'u caethiwed.

Mae llyfr Exodus yn adrodd hanes y deg pla a' anfonodd Duw yn erbyn yr Eifftiaid, i geisio cymell Pharo i ollwng yr Israeliaid yn rhydd. Y pla olaf, marwol oedd lladd pob cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aifft. Mae Exodus 12 yn egluro sut roedd yr Israeliaid i fod i daenu gwaed yr oen ar byst drysau eu tai fel bod Duw yn gwybod nad oedd Eifftiaid yno. Byddai Duw yn 'mynd heibio' iddyn nhw heb ladd eu cyntaf-anedig. Yn ôl y stori, y pla hwn a ddarbwyllodd Pharo i ryddhau'r Israeliaid yn y man, ond cyn iddyn nhw fynd ymhell iawn, newidiodd ei feddwl, efallai am nad oedd am golli llafur ei gaethweision. Mae Exodus 14 yn adrodd hanes dramatig yr Israeliaid yn croesi'r Môr Coch. (Dyna'r cyfieithad traddodiadol o'r enw *Yam suph* yn Exodus 13: 18. Mae *Yam suph* yn cyfeirio at y Môr Coch yn 1 Brenhinoedd 9: 25 ac yn Exodus 10: 19. Ond mae rhai pobl yn meddwl ei fod yn golygu 'môr cawn' ac yn dychmygu'r Israeliaid yn croesi milltiroedd o welyau cawn rywle yng nghyffiniau Camlas Suez heddiw.) Boddodd yr Eifftiaid a oedd yn eu herlid.

Felly mae Pesach yn dathlu rhyddid. Heb y digwyddiadau mae'r ŵyl yn eu coffáu, fyddai'r Iddewon ddim yn bod fel pobl. Yn y kiddush ar Shabbat ac ar y dyddiau gwyl eraill, mae Iddewon yn cofio'r exodus o'r Aifft. Brawddeg gyntaf y Deg Gorchymyn yw: 'Myfi yw'r ARGWYDD dy Dduw, a'th arweiniodd allan o wlad yr Aifft, o dŷ caethiwed' (Exodus 20: 2). Ond Pesach, yn fwy na'r un ŵyl arall, sy'n dathlu gwreiddiau'r genedl.

Y Seder

Nodwedd fwyaf lliwgar yr ŵyl yw'r pryd dathliadol yn y cartref ar y noson gyntaf. Mae Iddewon Uniongred y tu allan i Israel yn cael pryd arall tebyg ar yr ail noson hefyd. Mae perthnasau a ffrindiau yn cael eu gwahodd i'r pryd, yn enwedig pobl fyddai ar eu pen eu hunain fel arall. (Mae Diwygwyr a mwyfwyr o Uniongredwyr a Rhyddfrydwyr yn cynnal dathliad cymunedol yn y synagog.) Weithau mae'r dathliad yma yn gyfle i'r teulu ddod ynghyd, gyda'r cymdeithasu'n bwysicach na defodau'r

pryd. Ond mae llawer o Iddewon yn benderfynol o ailgreu profiad yr exodus ar gyfer pawb sy'n bresennol. I'w helpu i wneud hynny, mae'r pryd yn dilyn 'trefn' benodol, *seder* mewn Hebraeg. Y drefn honno yw'r *seder Haggadah* ('trefn yr adrodd') a'r hyn sy'n cael ei adrodd yw stori Exodus am gaethiwed a rhyddid, yn ôl gorchymyn Exodus 13: 8: 'Ar y dydd hwnnw fe ddywedir wrth dy fab, "Gwneir hyn oherwydd y peth a wnaeth yr ARGWYDD i mi pan ddeuthum allan o'r Aifft." Mae pobl wedi mynd i alw'r dathliad ei hun yn *seder* ac mae'n dilyn testun litwrgaidd a llenyddol unigryw o'r enw yr Haggadah. Fel arfer, mae gan yr *Haggadat* (lluosog) destun Hebraeg ynghyd â chyfieithad i iaith y rhai sy'n dathlu'r *seder*, ac maen nhw'n aml yn llawn darluniau hardd. Mae rhai'n cynnwys straeon am y profiad Iddewig mwy diweddar, ond eu sail yw hanes y Beibl am yr exodus gydag esboniad midrashig ar bob ymadrodd. Craidd hyn oll yw'r hanes yn Deuteronomium 25: 5-8 sy'n dechrau â'r geiriau: 'Aramead ar grwydr oedd fy nhad . . .'. Mae pawb sy'n bresennol yn cael copi o'r Haggadah a phob un ei dro yn darllen ohono. Y nod yw dathlu eu bodolaeth fel rhan o'r genedl Iddewig. Yng ngeiriau'r Haggadah: 'Ym mhob cenhedlaeth, dylai'r unigolyn ei ystyried ei hun fel pe bai ef yn bersonol wedi dod allan o'r Aifft.'

Mae'r awyrgylch a'r holl ymdrech i baratoi'r *seder* yn codi'r cwestiwn amlwg: 'Pam mae'r noson hon yn wahanol i bob noson arall?' Yn ystod y noswaith, mae'r cwestiwn yma'n cael ei ofyn a'i ateb mewn ffordd addysgol nodweddiadol Iddewig – nid drwy eiriau yn unig ond â phethau y gellir eu gweld a'u blasu. Un symbol o'r fath yw'r glustog sy'n cael ei rhoi wrth ben y person sy'n arwain y *seder*. Mae hyn yn symbol o gysur bod yn rhydd i fwyta gan ymlacio, oherwydd yn yr hen amser, pobl rydd (nid caethweision) fyddai'n pwyso ar glustogau i fwyta.

Plant yw dyfodol y genedl Iddewig, ac mae'n briodol mai'r plentyn ieuengaf sy'n gofyn pam mae'r noson yma'n arbennig. Mae'r cwestiwn cyffredinol yn arwain at bedwar cwestiwn penodol am ddefodau'r noson.

Pam, ar y noson hon, ydyn ni'n bwyta bara croyw?

Pam, ar y noson hon, ydyn ni'n bwyta llysiau chwerw?

Pam, ar y noson hon, ydyn ni'n trochi ein llysiau?

Pam, ar y noson hon, ydyn ni'n lledorwedd?

Mae arweinydd y dathliad, y tad fel arfer, yn ateb y cwestiynau hyn gan gyfeirio at y gwahanol symbolau. Ar fwrdd y *seder* bydd tri *matzah* (darn o fara croyw). Mae'r traddodiad yn priodoli

gwahanol ystyron i'r rhain, ond mae un matzah wedi ei dorri i symboleiddio 'bara cystudd' (gan mai dyna fel y bydd dyn tlawd yn bwyta ei fara). Mae darn o hwn yn cael ei guddio er mwyn i'r plant gael dod o hyd iddo yn nes ymlaen, gêm fach sy'n ei helpu i gadw ar ddi-hun ar noson faith iawn. Enw'r matzah yma yw'r *Afikomen*, gair Groegaidd sy'n golygu pwdin, mae'n debyg, sef blas olaf y pryd. Mae'n briodol mai matzah yw hwnnw, gan mai bara cryw yw symbol canolog Pesach.

Mae symbolau pellach yn helpu i ailgreu'r profiad. Y llysiuyn gwyrdd mwyaf arferol yw persli neu letusen ddeilen-hir – mae ei blas chwerw-felys yn dwyn i gof gaethiwed a rhyddid gyda'i gilydd. Mae rhuddygl poeth yn aml yn un o'r llysiau chwerw, gyda'i flas neilltuol o chwerw yn atgof pwerus o boen caethwasiaeth. Mae'r llysiau gwyrdd yn cael eu trochi mewn dŵr hallt, symbol o ddagrau'r caethweision cyn eu rhyddhau a'r môr bu rhaid iddyn nhw ei groesi i fod yn rhydd. Symbol arall am gaethwasiaeth a rhyddid yw'r *charoset*. Mae'r cymysgedd yma o ffrwythau, cnau, perlysiâu a gwin yn cynrychioli'r mortar roedd y caethweision yn ei ddefnyddio i wneud priddfeini. Blas melys rhyddid sydd ar y charoset, ac mae'r llysiau chwerw'n cael eu trochi ynddo.

Mae'r bwydydd hyn fel arfer yn cael eu rhoi ar ddysgl seder arbennig. Mae dwy eitem symbolaidd arall ar y seder, ond dydy'r rhain ddim yn cael eu bwyta. Wy wedi ei ferwi'n galed, ac yna ei rostio yw un ohonyn nhw, sy'n ein hatgoffa am offrymau'r Deml. Gydag ef mae asgwrn oen sy'n ein hagoffa am aberthu eto, ac sydd hefyd yn cynrychioli oen y Pasg, yr oen a gafodd ei ladd adeg Pesach. Cam 10 o'r 15 cam yn y seder yw bwyta brechdan o ddau ddarn o matzah wedi eu llenwi â llysiau chwerw. Mae hyn i'n hatgoffa am Rabbi Hillel a oedd, mae'n debyg, yn bwyta matzah a llysiau chwerw ar yr un pryd. Mae rhai pobl yn cynnwys charoset yn y frechdan.

Mae'r symbolaeth yn parhau yn y pedwar cwpanaidd o win coch y mae'n rhaid i bawb eu hyfed yn ystod y pryd. Efallai fod y gwin coch yn symboleiddio gwaed yr oen ar byst drysau'r Israelaidd y Pasg Iddewig cyntaf hwnnw neu werth rhyddid. Yn ôl y Talmud, mae'r pedwar cwpan yn cynrychioli pedwar addewid Exodus 6: 6-7. Mae pedair berf wahanol yma wrth i Dduw addo i Moses y bydd yn achub ei bobl: rhyddhau, gwaredu, achub, cynryd. Mae'r holl bwyslais yn yr Haggadah ar weithgaredd Duw. Un cyfeiriad yn unig sydd at Moses, a hynny wrth fynd heibio. Mae pumed addewid yn Exodus 6: 8 a chynrychiolir hynny gan

gwpanaidd arall. Yn oes y Talmud, roedd pobl yn anghytuno a ddylid yfed pumed cwpanaidd o win. Y cyfaddawd oedd arllwys pumed cwpanaidd ond peidio â'i yfed. Pan oedd gan y Rabiniaid gwestiwn astrus, fe fyddden nhw'n ei adael i'r Proffwyd Elias ei ateb. Elias sydd i fod i gyhoeddi Oes y Meseia pan fydd pob anghydfod yn cael ei ddatrys a gwir ryddid a heddwch yn teyrnasu. Felly cwpan Elias yw enw'r cwpan yma. Dyna pryd y dechreuodd yr arfer o agor y drws i geisio annog Elias i ddod i mewn.

Mae'r gwin yn cael ei ddefnyddio i ddiben arall hefyd yn ystod y seder. Bob tro y sonir am un o'r deg pla, mae pob person yn tywllt diferyn o win i fynegi tristwch am ddiodefaint yr Eifftiaid. Dathlu gwaredigaeth yr Israelaidd y mae'r achlysur, nid diodefaint pobl eraill. Gan gofio bod yna wledydd lle mae Iddewon yn cael eu gormesu o hyd, mae'r seder yn dod i ben â'r geiriau:

*Nid yw'r waredigaeth eto'n gyflawn ...
Heddwch, shalom ...
Y flwyddyn nesaf yn Jerusaleim,
Y flwyddyn neaf bydded pawb yn rhydd.*

Mae'r holl achlysur yn cyfuno difrifoldeb â hwyl, yn enwedig yn y caneuon bywiog sy'n cloi'r noson. Mae'r rhain yn cynnwys *Had Gadya* ('Un Afr Fach'), cân boblogaidd sy'n alegori o hanes yr Iddewon: erledigaeth gyson a rhagluniaeth Duw.

Cyfrif y dyddiau

Yr omer

Ar ail ddiwrnod Pesach, mae Iddewon yn dechrau cyfrif'r dyddiau tan yr ŵyl nesaf, Shavuot. Er bod Pesach wedi dod â rhyddid corfforol i'r Iddewon, Shavuot a'u rhyddhaodd yn ysbrydol pan dderbynion nhw Gyfraith Duw, y Torah. Yr enw ar y broses gyfrif yw 'cyfrif yr Omer', er mai cyfrif o'r Omer fydd pobl yn gwneud. Mesur o haidd oedd *omer*. Mae'r Torah'n gorchymyn 'O drannoeth y Saboth' (ail ddiwrnod Pesach, yn ôl y Phariscaid) pan oedd ysgub o haidd yn cael ei dwyn i'r Deml yn Jerwsalem, y dylid cyfrif hanner can diwrnod ac yna cynnig blaenffwrth y cynhaeaf gwenith (Leviticus 23: 15-16). Felly mae'r cynhaeaf gwenith yn cychwyn saith wythnos wedi'r cynhaeaf haidd ac felly'n cael yr enw Shavuot ('Wythnosau'). Os yw cyfrif yr wythnosau wedi rhoi un enw i'r ŵyl, mae cyfrif y

dyddiau wedi rhoi enw arall iddi, sef 'Pentecost', y gair Groegaidd am '50'. Erbyn heddiw, mae Shavuot yn digwydd ar ddyddiad penodol, 6 Sivan (a 7 Sivan hefyd y tu allan i Israel), ond mae dyddiau cyfnod yr Omer yn dal i gael eu cyfrif er mwyn creu'r cyffro o edrych ymlaen at dderbyn y Torah.

Gan fod yr Iddewon yn edrych ymlaen yn eiddgar yn y cyfnod yma, gall ymddangos yn od fod y 32 diwrnod cyntaf yn cael eu hystyried yn gyfnod trist gan Iddewon Uniongred. Maen nhw'n gwneud rhai pethau sy'n nodweddiadol o alaru am y meirw, fel peidio â thorri eu gwallt neu ddathlu priodasau. Does neb yn siwr iawn beth sydd wrth wraidd y galaru yma, ond un eglurhad yw fod llawer o ddisgyblion Rabbi Akiva yn yr ail ganrif OG wedi marw o'r pla yn ystod cyfnod Omer. Ar y deuddegfed diwrnod ar hugain, mae'n debyg, daeth y pla i ben, a dyna ddyddiad buddugoliaeth gwrthryfel Bar Cochba hefyd. Rhoddodd y rhai oedd yn ymrydio oherwydd tristwch y pla a Gwrthryfel Bar Cochba y gorau i'w hymryd. Mae'r dyddiad yma, *Lag B'Omer* ('y trydydd ar ddeg ar hugain o Omer') wedi mynd yn wyl leiaf. Mae'r galaru'n troi'n ddathlu, ac mae rhuthr i dorri gwalltau a phriodi ar y dyddiad yma. Mae'r dydd yn un pwysig i gyfrinwyr am mai dyma pryd bu farw'r cyfrinydd mawr, Shimon bar Yochai, disgybl i Akiva ac awdur tybiedig y gwaith cyfriniol canoloesol, y Zohar. Maen nhw felly'n dathlu uno'i enaid â'i ffynhonnell gyfriniol fry. Yn yr oes fodern, mae gwyl Dydd Annibyniaeth Israel (5 Yiar) a Dydd Jerwsalem (28 Yiar) hefyd yn torri ar draws pruddglwyf tymor yr Omer neu'r *sefirah* ('cyfrif'). Dydy'r rhan fwyaf o Iddewon an-Uniongred ddim yn credu mewn dilyn cyfyngiadau galaru y cyfnod yma.

Cyfuno'r cynhaeaf gwenith gyda rhoddi'r Torah

Dydy'r Beibl ddim yn dweud pryd y rhoddwyd y Torah i Moses ar fynydd Sinai. Ar sail Exodus 19, fodd bynnag, mae rhai wedi amcangyfrif mai yn Sivan, y trydydd mis, y digwyddodd hynny. Gan mai chweched dydd Sivan yw Shavuot, aeth y ddau ddigwyddiad, gwyl y gwenith a'r datguddiad ar Sinai, yn un wyl, gydag eglurhad hanesyddol yn cael ei ychwanegu at yr elfennau naturiol sy'n deillio o fywyd y tir. Hyd yn oed heddiw, er mai ystyr ddiwinyddol sydd i'r wyl i Iddewon, mae Shavuot (fel Pesach) yn dal i gynnwys adlais o ddathlu'r cynhaeaf. Does dim defodau arbennig (fel bwyta bara croyw yn ystod Pesach) ond datblygodd rhai arferion dros y canrifoedd. Un o'r rhain yw addurno'r synagog â blodau a phlanhigion, i gynrychioli Mynydd Sinai yn blodeuo pan roddwyd y Torah.

Arfer arall yw bwyta bwydydd llaeth, yn enwedig cacen gaws. Mae pobl yn egluro hyn mewn gwahanol ffyrdd. Un eglurhad yw mai dim ond bwydydd llaeth y gallai Iddewon fod yn sicr ei bod yn iawn i'w bwyta cyn i'r deddfau cig gael eu rhoi. Un arall yw bod bwyta bwydydd llaeth yn eu hatgoffa fod Duw wedi dod â nhw allan o'r Aifft i 'wlad yn llifeirio o laeth a mēl' (Deuteronomium 26: 9). Mae Deuteronomium 26 yn pwysleisio diolchgarwch am y tir a'i gynnyrch. Dylai'r Israeliaid gofio mor galed oedd eu bywyd yn y dechreuad (adnod 5) a chynnig blaenffwrth (hynny yw, cynnyrch gorau) y cynhaeaf i Dduw (adnodau 1-3, 10). Enw arall ar Shavuot yw 'Gŵyl y Blaenffwrth'. Mae pobl yn dal i gredu, er nad oes Tēml bellach lle gellir offrymu blaenffwrth, na ddylai neb gymryd y cynhaeaf yn ganiataol.

Rhyddid i ufuddhau – Shavuot

Mae'r Rabbiniaid yn cyfeirio at Shavuot fel 'yr wyl sy'n cloi' Pesach. Mae hyn yn awgrymu nad achub yr Israeliaid o'u caethiwed, sef yr hyn mae Pesach yn ei ddathlu, oedd y diben terfynol. Mae Duw'n dweud wrth Moses, wrth ei sicrhau ei fod yn ei anfon i achub ei bobl: '... wedi iti arwain y bobl allan o'r Aifft, byddwch yn addoli Duw ar y mynydd hwn' (Exodus 3: 12). Nid rhyddid i wneud dim byd sy'n cael ei roi i'r bobl, ond y rhyddid i wasanaethu Duw. Yn ôl Maimonides, rhodd amheus yw rhyddid heb gyfraith. Mae'r cysylltiad rhwng rhyddid o gaethwasiaeth, a rhyddid i wasanaethu yn cael ei fynegi sawl gwaith yn ystod Shavuot. Mae llawer o bobl yn aros ar eu traed drwy'r nos yn astudio'r Torah. (Mae llawer o synagogau Diwygiedig yn dilyn y traddodiad yma erbyn hyn ac yn trefnu grwpiau astudio, gyda brecwast a gwasanaeth gyda'r wawr.) Efallai y byddant yn astudio un pwnc neilltuo neu'n darllen o gasgliad o gyfreithiau ysgrifenedig a llafar wedi ei lunio'n arbennig ar gyfer 'noson Shavuot'. Yr ail noson, bydd llawer yn darllen llyfr y Salmau.

Mae'r darlenniadau yn y synagog yn canolbwyntio'n neilltuo ar ddatguddiad Duw. Rhan ganolog y gwasanaeth ar ddiwrnod cyntaf Shavuot yw darllen y Deg Gorchymyn o Exodus 20: 1-17 yn ddwysddifrifol. Ar yr ail ddiwrnod, y darlenniad o'r Torah yw Deuteronomium 15: 19 - 16:16 sy'n gorchymyn cadw tair gwyl y Pererinion. Mae'r darnau o'r Proffwydi a'r Ysgrifau hefyd yn dweud y dylid ufuddhau i orchmynion Duw, yn enwedig llyfr Ruth. Mae'r wraig o wlad Moab yn cael ei chymryd fel patrwm o

berson a gafodd droedigaeth â'i holl galon ar Iddewiaeth, gan fynd yn un o bobl y cyfamod a derbyn Duw a'r Torah (Ruth 1: 16). Mae synagogau Diwygiedig a Cheidwadol yn aml yn cynnal gwasanaethau derbyn yn ystod Shavuot gan fod hwn yn amser priodol i rai sydd wedi bod yn astudio mewn dosbarth sy'n dilyn bar/bat mitzvah i arddangos eu hymrwymiad i Iddewiaeth. Mae hyn yn ategu pwysigrwydd yr ŵyl yma sydd yn llai poblogaidd na'r ddwy arall, efallai am nad oes iddi ddefodau arbennig ac am nad yw'n cael ei dathlu yn y cartref.

Lle mae gwir ddiogelwch i'w gael – Sukkot

Mae'r olaf o wyliau'r Pererinion yn atgoffa pobl yn fwiadol mor ddibynnol yw'r Iddewon ar Dduw. Mae 'Sukkot' yn golygu 'cytiau', 'pebyll' neu 'tabernaclau', ac mae enw'r ŵyl yn ein hatgoffa o'r cyfnod pan nad oedd gan yr hen Israelaidd gartrefi parhaol, dim ond llochesau dros-dro. Roedd hyn yn ystod eu taith hir drwy'r anialwch wedi'r exodus o'r Aifft, i wlad Canaan. Fel Pesach, mae'r ŵyl yma'n ceisio ailgreu amodau'r gorffennol er mwyn i'r digwyddiadau droi'n brofiad y presennol. Mae Lefiticus 23: 42 yn dweud wrth yr Iddewon am 'fyw mewn pebyll am saith diwrnod' ac felly, mae gŵyl Sukkot yn ailfyw'r ddiabyntiaeth wreiddiol yma ar Dduw. Mae'r salmydd yn sôn am Dduw yn ei gadw 'yn ei gysgod yn nydd adfyd, a'm cuddio i mewn yn ei babell' (Salm 27: 5). Felly mae'r *sukkah* (unigol) yn symbol o ddibynnu ar Dduw am amddiffyniad a nerth pan nad oes dim diogelwch arall ar ôl. O ganlyniad, gweithred ganolog yr ŵyl yma yw adeiladu *sukkah*.

Mae nodweddion arbennig i *sukkah*. Rhaid iddo fod â thair wal o leiaf – gall y bedwaredd ochr gael ei gadael yn agored – o ddefnydd sy'n gwrthsefyll y gwynt. Weithiau bydd wal tŷ neu garej yn ffurfio un o'r waliau, gyda'r gweddill yn rhai dros-dro. Rhaid iddo fod â math arbennig o do â nodweddion sy'n achosi i Iddewon fyfyrto ar Dduw fel creawdwr mewn cyferbynaid â chadernid tŷ parhaol, y mae'r rhan fwyaf o bobl yn tueddu i ymddiried ynddo. Mae'r to wedi ei wneud o blanhigion na ellir eu bwyta. Rhaid i'r planhigion hyn fod yn eu cyflwr naturiol (dim estyll pren) a heb gysylltiad â'r ddaear (dim canghennau coeden sy'n tyfu). Rhaid i chi allu gweld yr awyr drwyddo ac ni ddylai fod yn ddigon trwchus i gadw glaw trwm allan. Ddylai dim byd arall, fel balconi uwch ei ben, fod yn ei gysgodi.

Mae gan lawer o synagogau ystafell â tho llithro y gellir ei agor. Bydd gorchudd yn cael ei osod yn lle'r to, wedi ei wneud yn ôl rheolau ar gyfer to *sukkah*, gan droi'r ystafell ei hun yn *sukkah*. Mae'r Rabbinaid yn sôn am addurno'r mitzvot, felly mae'r *sukkah* yn yr ardd neu yn y synagog yn cael ei addurno'n hardd, yn enwedig â ffrwythau sy'n crogi o'r to.

Gan fod Sukkot, fel dwy ŵyl arall y Pererinion, yn ŵyl gynhaef hefyd (mae Lefiticus 23: 39 yn sôn an gasglu 'cynnyrch y tir' ar yr adeg yma), mae'n bosib fod y *sukkot* yn cynrychioli pebyll y ffermwyr a fyddai'n byw yn y caeau yn ystod y cynhaef. Yn sicr, mae Sukkot yn adeg pan fydd pobl yn cofio mai Duw sy'n darparu'r cynhaef. Dyma gynhaef olaf y flwyddyn, rhwng 15 a 22 Tisrei, yn yr hydref. Fel Pesach, mae diwrnodau cyntaf ac olaf yr ŵyl yn ddyddiau sanctaidd, ac mae pob gwaith heblaw am baratoi bwyd wedi ei wahardd. (Mae Ceidwadwyr a Diwygwyr yn dilyn yr un canllawiau ag ar gyfer Shabbat.) Mae hynny o amser ddylai pobl ei dreulio yn y *sukkah* i gyflawni gorchmynion y Torah yn amrywio, am resymau ymarferol. Yn Israel, mae llawer o Iddewon yn cysgu yn y *sukkah* am y saith diwrnod, ond ym Mhrydain ac America, lle gall hi fod yn oer ar ddiwedd mis Medi/dechrau mis Hydref, y cwbl mae'r rhan fwyaf o Iddewon yn ei wneud yw bwyta ynddo. Dydy'r mitzvah yma ddim yn orfodol yn achos rhywun sâl, neu os yw hi'n bwrw glaw. Mae'r Talmud yn feiniadol o'r rai sy'n ceisio profi mor dduwiol ydyn nhw drwy aros yn y *sukkah* pan nad yw'r Torah'n mynnu hynny. Ond mae angen rhywfaint o ymdrech. Dyna pam mae'r ŵyl yn cael ei dathlu yn yr hydref, pan fydd eistedd mewn *sukkah*'n debyg o fod yn brofiad anghysurus ac oer, yn hytrach nag yn y gwanwyn pan ddigwyddodd yr exodus. Mae lletygarwch yn agwedd hanfodol, a bydd pobl yn aml yn ymweld â ffrindiau i rannu pryd.

Y pedwar planhigion

Ail ddefod amlwg Sukkot yw dal pedwar planhigion yn eich llaw. Mae'r gorchmyn yma yn Lefiticus 23, gyda'r gorchmyn ar gyfer y *sukkah*. Meddai adnod 40:

Ar y diwrnod cyntaf yr ydych i gymryd blaenffrwyth gorau'r coed, canghennau palmwydd, brigau deiliog a helyg yr afon, a llawenbau o flaen yr ARGLEWYDD eich Duw am saith diwrnod.

Gan mai dyma'r ŵyl sy'n cloi'r cynhaef yn Israel, mae'r planhigion hyn yn symbolau o ddarpariaeth Duw. Dydy ystyr yr

Hebraeg sy'n cael ei gyfieithu fel 'blaenffwrwyth gorau'r coed' ddim yn bendant, ond credir ei fod yn golygu *etrog*, ffrwyth sitrws sy'n edrych yn debyg i lemn yn ond sydd â blas ac arogl cwbl wahanol. Yr enw ar y 'canghennau palmwydd' yw *lulav* ac mae 'brigau deiliog' yn cael eu cynrychioli gan fyrtwydden. Y rhain, ynghyd â'r helygen, yw'r 'pedwar rhywogaeth', yr *arba minim*. Dydy hi ddim yn glir pam mai'r pedwar planhigyn yma gafodd eu dewis yn wreiddiol, ond roedd y Rabbiniaid yn deall mai dyma'r gofyniad beiblaidd.

Mae llawer o Iddewon yn credu fod yr arba minim yn symboleiddio rhywbeth, ond heb gytuno beth yn union. Mae un midrash yn cysylltu pob planhigyn â gwahanol ran o'r corff, gyda'r etrog yn galon, y lulav yn asgwrn cefn, y fyrtwydden yn llygad, a'r helygen yn geg. Yn ôl un arall, maen nhw'n cynrychioli gwahanol fath o gymmeriad, gyda blas yn symbol o'r Torah ac arogl yn symbol o weithiau da. Ar sail y dehongliad yma, mae'r etrog, sydd â blas ac arogl yn cynrychioli rhywun sy'n gwybod y Torah ac yn dilyn ei orchmynion; mae ffrwyth y lulav, sydd â blas ond heb arogl, yn cynrychioli rhywun sy'n hyddysg yn y Torah ond nad yw'n cyflawni gweithredoedd da; mae'r fyrtwydden, sydd ag arogl ond heb flas, yn cynrychioli rhywun sy'n gwneud gweithiau da heb wybod y Torah; ac mae'r helygen, heb arogl na blas, yn cynrychioli rhywun sydd yn anwybodus ac yn hunanol. Dyma'r dehongliad mwyaf poblogaidd, ac mae'n awgrymu na ddylid gadael neb allan o'r gymuned Iddewig. Mae pob person, â'u gwendidau a'u cryfderau, yn cyfuno gydag eraill i ffurfio pobl Duw. O safbwynt y ddynolryw, mae hon yn agwedd hael ond realistig tuag at y natur ddynol. Ystyr yr arba minim yw fod angen pob math o berson i greu byd. Bob dydd yn ystod yr ŵyl, mae'r pedwar planhigyn yn rhan o gwrdd gweddi'r bore yn y synagog (heblaw am Shabbat yn y gymuned Uniongred, oherwydd y gwaharddiad ar gario mewn tirogaeth gyhoeddus). Mae'r etrog yn cael ei ddal yn y llaw chwith, ac yn y llaw arall, mae tri brigyn myrtwydd a dwy helygen wedi eu clymu wrth y lulav. Mae'r gorchymyn i gymryd y lulav (y mwyaf, sydd felly'n cynrychioli'r pedwar) yn cael ei fendithio. Mae llawer o gymunedau nid yn unig yn dal y lulav ond yn ei chwifio wrth adrodd yr Hallel (y salmau gŵyl). Maen nhw'n ei chwifio i bob cyfeiriad, i ddangos fod Duw yn mhob man.

Y dyletswydd i lawenhau

'Tymor ein llawenhau' yw Sukkot, yn ôl y gorchymyn yn Lefiticus 23: 40. Mae'r pwyslais ar lawenhau i'w weld mewn llawer agwedd ar Iddewiaeth, er enghraifft, yn y defodau tyfiant ac ar Shabbat. Mae'n gryf iawn yn ystod Sukkot ac yn y dyddiau sy'n cloi'r tymor gwyliu a gychwynnodd, dair wythnos yn flaenorol, gyda'r Flwyddyn Newydd. Yn y dyddiau gynt, roedd gorymdaith yr ŵyl yn ystod Sukkot yn mynd i'r ffynnon a oedd yn darparu dŵr ar gyfer y Deml, ac yn ôl. Roedd dŵr yn cael ei dywallt ar yr allor fel offrrwm mawr o ddiolchgarwch am y tymor glawog oedd ar fin cychwyn. I ddathlu'r dŵr oedd mor hanfodol i unrhyw gynhaef yn y dyfodol, byddai'r bobl yn dawnsio i seiniau fflwtiau, telynau a symbalau. Mae bywiogrwydd seremoni offrrymu'r dŵr i'w weld yn sylw'r Mishnah: 'Nid yw'r neb na welodd lawenydd codi'r dŵr wedi profi gwir lawenydd yn ei fywyd erioed' (Sukkah 5: 1). Mae pryd hwyrol hyd yn oed heddiw i ddathlu codi'r dŵr. Ar seithfed diwrnod Sukkot, mae gorymdaith gyda sgroliau'r Torah a'r lulav a'r etrog o gwmpas y bimah yn y synagog saith gwaith. Mae gweddïau'n cael eu hadrodd gyda'r cytgan *Hoshanah* ('Achub ni'). Enw'r diwrnod hwn heddiw yw *Hoshanah Rabbah* ('yr Hosanna Fawr'). Wedi'r cylch olaf, mae'r helyg yn cael eu curo yn erbyn y llawr neu'r cadeiriau nes i'r dail ddisgyn ymaith, sy'n awgrymu cael gwared o bechodau. Mae naws edifeiriol yr Uchel Wyliau Sanctaidd felly'n ailymddangos, mewn amryw o nodweddion fel gwisgo'r kittel (amwsg) wen, ac ymbil am achubiaeth Duw.

Simchat Torah

Mae'r un teimlad yn parhau ar wythfed dydd yr ŵyl, a ddylai, yn ôl gorchymyn Lefiticus 23: 39 a Numeri 29: 35, fod yn ddydd o orffwys llwyr. I bob diben, mae hon yn ŵyl ar wahân ac felly, fel pob gŵyl, mae'n dechrau gydag adrodd y kiddush ac yn cloi gyda'r Havdalah. Enw'r ŵyl yw *Shemini Atzeret* ('wythfed dydd y cynulliad'). Nodwedd ganolog y musaf (y gwasanaeth ychwanegol) ar Shemini Atzeret yw'r weddi am iddi fwrw glaw. Mae Iddewon Uniongred y tu allan i Israel yn cadw'r ŵyl am ddeuddydd. Dechreuodd yr ail ddiwrnod o'r rhain gael ei alw'n *Simchat Torah* (Llawenydd y Torah), rywbryd wedi'r unfed ganrif ar ddeg OG. Yn Israel, mae Shemini Atzeret a Simchat Torah yn cael eu dathlu ar yr un dydd. Mae Iddewon Diwygiedig, sydd hefyd ond yn dathlu Shemini Atzeret am un dydd, yn dathlu Simchat Torah ar yr un dydd. Dyna'r unig achlysur y bydd y mudiad Diwygiedig yn dathlu gŵyl ar ddydd

gwahanol i synagogau Uniongred y Diaspora.

Yr unig ffordd o ddisgrifio Simchat Torah yw fel ffrwydrad o lawenydd. Gyda gwyl Shavuot yn dathlu rhoi'r Torah i'r Iddewon, a holl gwyl Sukkot yn gyfnod o lawenhau, y diwrnod hwn yn fwy na unrhyw ddydd arall sy'n mynegi gorfoledd y grefydd Iddewig. Mae'r synagog yn mynd yn lle llawn hwyl. Mae holl sgroliau'r Torah'n cael eu tynnu o'r arch ac yn cael eu cario o gwmpas y bimah saith gwaith (tybir fod hyn yn cynrychioli'r orymdaith o gwmpas Jericho a ddisgrifir yn Josua 6) gyda phawb yn canu, dawnsio (weithiau allan i'r stryd) a churo dwylo wrth orymdeithio. Mae llawer o bobl yn cael eu galw i fyny i ddarllen o'r Torah. Mae'r anrhydedd mwyaf yn mynd i'r person sy'n darllen darn olaf Deuteronomium a'r un sy'n darllen darn cyntaf Genesis wedi hynny. Mae'r rhain yn cael eu galw'n 'briodfeibion' ac maen nhw'n cynrychioli'r gymuned wedi ei huno â'r Torah fel priodfab a phriodferch. Weithiau bydd tallit (siol weddi) yn cael ei dal uwch pennau'r darllenwyr fel y chupah mewn priodas.

Y disgrifiad mwyaf adnabyddus i rai nad ydynt yn Iddewon yw'r un yn nyddiadur Samuel Pepys, o'r ail ganrif ar bymtheg. Ar ôl ymweld â synagog Seffardi yn Llundain ym 1663, mae'n sgrifennu:

Ond Arghwydd, byddai gweld yr anbreffn, chwerthin, chwarae, a neb yn talu sylw, dim ond dryswch yn eu holl wasanaeth, yn fwy fel bwystfilod na phobl sy'n adnabod y gwir Dduw, yn guneud i ddyn dyngu i beidio â'u gweld byth eto; ac yn wir, ni welais erioed gymaint, na gallu dychmygu y byddai unrhyw grefydd yn y byd yn cael ei pherfformio meun modd mor absurd â hyn.

Mae'n ddigon posib fod yna wasanaethau Simchat Torah lle byddai pethau'n mynd dros ben llestri, ond mae disgrifiad Pepys yn dod o safbwynt gorllewinol, esthetig. Cawn safbwynt gwahanol yn nisgrifiad Chaim Potok o Simchat Torah yn ei nofel, *In the Beginning*. Mae paragraff byw iawn yn cloi gyda'r geiriau hyn:

Arllwysodd y sŷn o'r tu feun i'r synagog allan i'r nos, gyda'r sain yn donau, yn chwyddo a chilio a theneuo a thyfu. Llawnrwydd dawnsio gyda'r Torah, ei ddal yn dynn, geiriau Duw wrth Moses yn Sinai. Tybed a ddawnsiodd pobl y cenedloedd erioed gyda'u Beibl hwythau?

Mae Simchat Torah yn wyl a ddaeth i fod wedi cyfnod y Talmud. Mae wedi ei seilio ar stori am y Brenin Solomon yn dathlu wedi iddo orffen darllen y Torah. Felly, mae rhan olaf y Torah, Deuteronomium 33: 1 - 34: 12 yn cael ei ddarllen, ac er mwyn peidio â thori'r cylch, adran gyntaf y Torah, Genesis 1: 1 - 2: 3. Dydy hon ddim yn wyl resymegol ond gwyl sy'n gorfoleddu yn y ffaith fod Duw wedi rhoi'r Torah i'r Iddewon i'w ddilyn yn eu bywydau. Mae'r cwestiwn a yw'r dathliadau'n briodol yn dibynnu, fel y dwedodd rabbi un tro yn ei bregeth Simchat Torah, nid yn unig ar ein parodrwydd ni i lawenhau gyda'r Torah' ond ar ein gallu i ymddwyn mewn modd sy'n peri i'r Torah lawenhau gyda ni'.